

The background is a solid blue color with several decorative elements scattered around. These include: a white letter 'N' at the top center; a yellow curved shape at the top right; a grey zigzag shape at the top right; a pink dashed line at the top right; a yellow curved shape on the left; a pink dashed line on the right; a teal curved shape on the right; a purple curved shape on the left; an orange letter 'H' at the bottom left; a white letter 'N' at the bottom left; a grey zigzag shape at the bottom center; and a pink dashed line at the bottom right.

Gweithdai  
Dy Lais  
Your Voice

Canllaw Athrawon

# Cefndir

Mae Senedd Cymru wedi comisiynu Llenyddiaeth Cymru i gydlynnu cyfres o weithdai gyda disgyblion cynradd o bob cwr o Gymru er mwyn creu cerdd fawr i ddathlu agoriad swyddogol tymor newydd y senedd.

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi gofyn i bedwar awdur profiadol baratoi gweithdai ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2, sef Taylor Edmonds, Anni Llŷn, Gruffudd Owen ac Eloise Williams.

Mae ail weithdy wedi cael ei baratoi hefyd, a bydd y gweithdy hwnnw yn digwydd wyneb yn wyneb gyda 24 o ysgolion cynradd ar draws Cymru. Dewisiwyd yr ysgolion hynny ar hap.

Fodd bynnag, mae croeso i unrhyw ysgol ddilyn y gweithdy hwn sydd wedi cael ei recordio o flaen llaw, er mwyn dysgu mwy am waith y Senedd. Mae modd i chi chwarae hwn yn eich amser eich hun o flaen y dosbarth.

# Gweithdy

Mae'r gweithdy hwn wedi ei recordio o flaen llaw.

Mae'n cynnwys 5 rhan:

- Cyflwyniad byr
- Rhan 1: Penderfyniadau a Democratiaeth
- Rhan 2: Pa benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y Senedd?
- Rhan 3: Dadlau
- Rhan 4: Dy lais

Mae'r fideo hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae fersiynau gydag is-deitlau ar gael hefyd.

Rydych wedi cael gwybod o flaen llaw pa fardd fydd yn cynnal yr ail weithdy, ac ym mha iaith y bydd y gweithdy hwnnw, ond mae croeso i chi ddewis dilyn yr un iaith, neu iaith wahanol, wrth wyllo'r gweithdy cyntaf.

O'i chwarae o'r dechrau i'r diwedd, gydag amser i gyflawni'r tasgau, mae'r gweithdy yn cymryd tua 75 munud.

Gallwch ddewis gwyllo'r gweithdy mewn sawl rhan, a gallwch oedi, chwarae ac ail-chwarae rhannau gwahanol fel sydd orau gennych.

## **Deunyddiau / Offer**

Yn ystod y gweithdy yma, bydd angen:

- papur plaen
- offer ysgrifennu
- offer lliwio

# Rhan 1

## Tasg 1 - (munud neu ddau)

Bydd Gruff yn gofyn i'r disgyblion bleidleisio (trwy godi llaw) os mai pêl-droed neu rygbi ydi eu hoff chwaraeon.

Bydd angen i athro neu athrawes gyfri'r dwylo. Gallwch oedi'r fideo ar y pwynt hwn os hoffech chi ragor o amser.

## Tasg 2 - (pum munud)

Bydd Gruff yn gofyn i'r disgyblion bleidleisio dros ail ran y gwpled. Mae pedwar dewis y tro hwn. Bydd angen i athro neu athrawes ofyn i'r disgyblion bleidleisio unwaith am eu hoff linell.

Gallwch oedi'r fideo ar y sleid sy'n dangos y pedwar opsiwn.

# Rhan 2

## Tasg 3 - (chwarter awr)



Bydd Anni yn gofyn i ddisgyblion ddewis rhif o 1 i 8. Does dim angen arbed y fideo ar y pwynt yma.

Bydd Anni yn egluro'r dasg, sef creu map meddwl ar gyfer y pwnc sydd yn cyfateb i rif y disgyblion. Dyma fan da i oedi, ar ôl i Anni sôn am Gastell Conwy fel enghraifft.

Os yw'r disgyblion yn ei chael hi'n anodd dewis rhif, beth am roi rhif ar hap i bawb?

Mae enghraifft o fap meddwl ar y dudalen nesaf.

# Map Meddwl



# Rhan 3

## Tasg 4 - (deg munud o amser paratoi, deg munud o drafod)

Oedwch y fideo ar y sleid sy'n dangos y cwestiwn.

Yna, rhannwch y dosbarth yn ddau.

Bydd un grŵp o blaid gwersi ychwanegol, a'r grŵp arall yn erbyn.

Bydd angen i bob grŵp drafod ymysg ei gilydd. Mae croeso i chi ymestyn yr amser ar gyfer y darn yma os oes angen.

Atgoffwch y disgyblion bod angen:

- trafod pam eu bod nhw o blaid neu yn erbyn gwersi ychwanegol dros yr haf
- meddwl am unrhyw dystiolaeth neu resymau sy'n cefnogi eu barn
- penderfynu ar lefarydd i ddadlau achos y grŵp yn y siambr

Gosodwch y byrddau neu'r cadeiriau mewn cylch, yr un siap â'r siambr.

Gadewch i'r trafod ddechrau! Falle eich bod chi eisiau gosod rheolau e,e dim ond un i siarad ar unwaith ac ati.

Tybed a fydd yna ganlyniad ar y diwedd? Mae croeso i chi ddefnyddio'r gweithgareddau blaenorol (pleidleisio) er mwyn dod a'r weithgaredd hon i ben; neu osod terfyn amser ar y dadlau.

# Rhan 4

## Tasg 5 - (chwarter awr)

Bydd Gruff yn egluro'r dasg, sef dewis pwnc sy'n bwysig i chi, neu i'ch dosbarth cyfan, ac yna creu poster ymgyrchu ar ei gyfer.

Gallwch oedi'r fideo ar y llun sy'n dangos engreiffiau o brotest fel bod modd i'r disgyblion gael ysbrydoliaeth.

Os nad oes pwnc amlwg yn codi, beth am ddefnyddio'r pwnc o'r weithgaredd ddiwethaf? Neu dyma ambell enghraifft:

- Llyfr am ddim i bob plentyn yng Nghymru
- Ymgyrch i leihau plastig
- Ymgyrch i gael mwy o bobl i ddefnyddio beic yn lle ceir

Gallwch ymestyn yr amser ar gyfer y dasg yma, neu ei osod fel gwaith cartref hyd yn oed.

### Cais:

Byddai'n wych pe gallech chi yrru lluniau neu lungopiau o'r holl bosteri hyn fel ein bod ni'n gallu defnyddio rhai ohonynt wrth lunio'r fideo i gyd-fynd hefo'r gerdd. Gallwch yrru'r lluniau neu lungopiau at [post@llynyddiaethcymru.org](mailto:post@llynyddiaethcymru.org)

# Adborth

Dyma brosiect uchelgeisiol sydd wedi cael ei gynllunio a'i gynnal mewn amserlen eithaf tyn. Rydym yn awyddus iawn i glywed sut brofiad oedd dilyn y gweithdy cyntaf gyda'ch dosbarth, gan gynnwys unrhyw adborth ar gyfer gweithdai tebyg yn y dyfodol.

Gallwch rannu'ch adborth hefo ni, drwy ebostio:  
post@llynyddiaethcymru.org

## Lluniau a chyfryngau cymdeithasol

Os ydy eich ysgol chi ar y cyfryngau cymdeithasol, mi fyddem ni wrth ein boddau o gael ein tagio mewn unrhyw negeseuon, lluniau neu fideos am weithdai Dy Lais / Your Voice.

Defnyddiwch #DyLaisYourVoice, neu dewch o hyd i ni ar:

Twitter: @LlenCymru @LitWales

Facebook: @llencymru-litwales

Instagram: @llencymru\_litwales



